yr hawl i ‘sgwennu

Mae Tŷ Newydd yn cynnig cyfle unigryw i sgwenwyr ifanc i ddarganfod eu creadigrwydd mewn lleoliad ysbrydoledig

Cyrsiau ‘sgwennu i bobl ifanc

TŶ NEWYDD

Y GANOLFAN YSGRIFENNU GENEDLAETHOL | NATIONAL WRITERS' CENTRE FOR WALES

WHSmith TRUST

Mae pob person ifanc yn haeddu’r profiad a geir yn Nhŷ Newydd

Beth yw Tŷ Newydd?

Tŷ Newydd yw'r **Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol** sy'n cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Taliesin Cyfyngedig, cwmni cyfyngedig drwy warant gyda statws elusennol.

Cynhaliwyd cyrsiau ysgrifennu creadigol yn y ganolfan ers 1990. Mae'r ganolfan yn cael ei chydnabod fel canolfan o ragoriaeth mewn addysg gydol oes ac fel sefydliad diwylliannol pwysig a strategol yng Nghymru. Mae **Tŷ Newydd** yn cynnal cyrsiau ar gyfer pobl o bob oed, o bob cefndir, ac ar bob lefel profiad. Mae llawer o ysgrifenwyr cyhoeddedig wedi cydnabod ei rhan unigryw yn natblygiad eu gyrfa.

Mae **Tŷ Newydd** yn adeilad gyda chymeriad unigryw o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Saif **Tŷ Newydd**, cartref olaf Lloyd George ar gyrion pentref Llanystumdwy yng Ngwynedd. Y mae'n sefyll ar ei dir ei hun mewn gerddi hyfryd yn edrych allan dros y môr i'r mynyddoedd y tu hwnt.

> Diolch am wythnos orau fy mywyd. Anghofiai byth mo'r tŷ na'r profiadau a gefais ynddo.
>
> **Phillippa Nightingale. Ysgol Uwchradd Bewdley**

Profiad unigryw Tŷ Newydd

Yn **Nhŷ Newydd** caiff pobl ifanc gyfle i gael:

- Amser, gofod a hyder i ymestyn eu gallu fel sgwenwyr a hynny mewn awyrgylch ysbrydoledig
- Sylw agos a chyson gan ddau sgwennwr proffesiynol am wythnos gyfan
- Anogaeth, fel bod pawb yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn cymorth i ddatblygu eu creadigrwydd yn eu ffordd ddihafal eu hunain

Dod yn sgwennwr

Mae cyrsiau **Tŷ Newydd** yn enwog am feithrin ysgrifenwyr a darllenwyr ifanc. Maent yn rhoi i blant a phobl ifanc yr hyder i ymestyn eu gallu. Does dim byd anelwig am ddulliau **Tŷ Newydd** – cynigir hyfforddiant penodol ac o ddifrif sy'n gallu newid cwrs bywyd. Mae sgwenwyr proffesiynol byd-enwog yn gweithio gyda grwpiau bychain i roi cefnogaeth a gosod sialens i allu'r rhai sy'n cymryd rhan.

Sgwenwyr sydd wedi gweithio yn Nhŷ Newydd
Philip Pullman, awdur y gyfres enwog His Dark Materials; **Geraldine McCaughrean**, enillydd Gwobr Whitbread dair gwaith, ac awdur Peter Pan in Scarlet. **Bethan Gwanas**, awdur toreithiog llyfrau megis Llinyn Trôns a Ceri Grafu; y **Prifeirdd Twm Morys**, **Mererid Hopwood a Myrddin ap Dafydd** awduron sydd i gyd â phrofiad helaeth o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Grwpiau o 16 o bobl ifanc a dau sgwennwr proffesiynol yn cydweithio a chydfyw am 4½ diwrnod ac mae pawb yn rhoi cynnig ar goginio ac yn rhannu prydau iachus. Bydd gweithdai ysgrifennu, darlleniadau, amser i sgwennu, tiwtorials unigol a rhyddid i gerdded ar hyd y traeth neu ar hyd lannau Afon Dwyfor. Mae yma lyfrgell, siop lyfrau a mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil. Nid oes yma deledu. Gall myfyrwyr fod o bob oedran, neu o'r un oedran neu'n gymysgedd o wahanol flynyddoedd. Mae yma fynediad i'r anabl.

> Gwych! Doeddwn i ddim yn gwybod mod i'n medru sgwennu. Rwan dw i'n medru. Roedd yn wythnos ryfeddol, dw i'n dod eto.
>
> **Elisabeth Thomas. Ysgol Uwchradd Monmouth**



> Mae gyrru grŵp i Dŷ Newydd yn codi holl broffil llenyddiaeth mewn ysgol ac mae yna effaith pellgyrhaeddol. Mae sgwennu a darllen yn dod yn ‘cŵl’ a’r disgyblion yn aml yn cystadlu i ddod ar y cwrs nesaf.
>
> **Athro Ysgol Uwchradd**



“Gallaf ddweud â sicrwydd na fyddwn yn gwneud be dw i’n ei wneud rwan, sef ennill bywoliaeth drwy sgwennu a gwaith yn ymwneud â’m sgwennu, heblaw am fodolaeth Tŷ Newydd. Fel sgwennwr ifanc, bod ar gwrs wythnos yn Nhŷ Newydd wnaeth imi drin barddoniaeth o ddifrif ac ymroi i sgwennu’n well.”

Owen Sheers

Gwneud gwahaniaeth

Ar hyn o bryd, mae diffyg arian yn cyfyngu'n aruthrol ar y nifer o bobl ifanc gyda photensial creadigol, fyddai'n elwa o brofiad **Tŷ Newydd**.

Mae pob un plentyn yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i fynychu cwrs yn ein Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol.

Ni ddylai'r un plentyn gael ei atal rhag mwynhau'r profiad a geir yn **Nhŷ Newydd** oherwydd diffyg arian neu oherwydd lle maent yn byw.

Fe allwch chi wneud gwahaniaeth mawr i fywyd nifer o bobl ifanc, a dyfodol llenyddiaeth yng Nghymru trwy:

- gefnogi plentyn neu ysgol fel y bo mwy o ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn medru cymryd rhan;
- ein cynorthwyo i gyrraedd ysgolion nad ydynt yn gwybod am fodolaeth **Tŷ Newydd** – rhowch y daflen hon i rieni, athrawon ac ysgolion yn eich ardal;
- gysylltu â'ch cynghorwyr lleol, Aelodau Seneddol a Chynulliad a'r sector fusnes leol – gofynnwch iddynt gefnogi plant lleol sydd ar fin dod i Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru.
- roi cymorth i sicrhau fod pob ysgol yng Nghymru a thu hwnt yn gwybod am **Dŷ Newydd**, y Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol;
- ymweld â **Thŷ Newydd** yn ystod un o'r diwrnodiau agored – cewch weld drosoch eich hun y manteision i sgwenwyr – a rhowch gymorth i greu cenhedlaeth newydd o sgwenwyr i'r dyfodol.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

yr hawl i sgwennu

TŶ NEWYDD
Y GANOLFAN YSGRIFENNU GENEDLAETHOL | NATIONAL WRITERS' CENTRE FOR WALES

Yr hawl i sgwennu

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael:

- amser a gofod i greu;
- hyder i fod yn sgwennwr;
- parch fel unigolyn sy'n sgwennu yn ei ffordd unigryw ei hunan;
- teimlo'r cyffro, y llawenydd a'r cariad at eiriau a ysbrydolir gan Dŷ Newydd;
- cyfle i deimlo, ymateb a rhannu trwy sgwennu.

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd LL52 0LW
01766 522811 post@tynewydd.org www.tynewydd.org

01766 522811

TŶ NEWYDD
Y GANOLFAN YSGRIFENNU GENEDLAETHOL | NATIONAL WRITERS' CENTRE FOR WALES

WHSmith TRUST